TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# Gwobrau Cydnabyddiaeth 2020



# Yr Enillwyr:

## Dathlu eu Llwyddiannau Allweddol

# Gyda diolch i'n noddwyr

Tai Wales & West Housing

## Wedi ei ariannu'n rhannol gan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwobrau Cydnabyddiaeth 2020

**Fel llawer o ddigwyddiadau a drefnwyd ar gyfer eleni bu raid gohirio ein dathliad Gwobrau Cydnabyddiaeth flynyddol.**

Fodd bynnag, roeddem ar yr un pryd yn awyddus i gydnabod yr holl waith caled a gyflawnwyd gan ein haelodau, landlordiaid, tenantiaid a chymunedau i oresgyn yr heriau a ddaeth yn sgil argyfwng Cofid-19 ac i gefnogi tenantiaid yn yr amser anodd hwn.

## I wneud hyn, penderfynwyd cynnal ein dathliad ar-lein a thrwy hyn gyflwyno seremoni wobrwyo rithiol gyntaf TPAS Cymru!

Penderfynwyd sefydlu pedwar categori Gwobrau Cydnabyddiaeth, nid yn unig i gydnabod y gwaith a gyflawnwyd ond hefyd er mwyn rhoi cyfle i eraill rannu'r ymarfer da.

## Yn y llyfryn hwn, byddwn yn rhoi gwybodaeth am bedwar categori'r gwobrau, y bobl eithriadol a enwebwyd a'r tri enillydd a ddewiswyd gan y beirniad i'w gwobrwyo ym mhob categori.

Rydym hefyd wedi cynnwys eu manylion cyswllt os ydych eisiau derbyn manylion pellach am eu prosiectau.

**Diolch unwaith eto i'r holl rai sydd wedi bod yn rhan o'r fenter, a gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr hanes gymaint ag a wnaethom ni!**

# Cynnal Cyfranogiad Tenantiaid

**Mae'r wobr hon yn cydnabod llwyddiant landlordiaid cymdeithasol a / neu grwpiau tenantiaid sydd wedi cynnal gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod clo, er mwyn sicrhau bod lleisiau tenantiaid yn parhau i gael eu clywed.**

## Meini Prawf Asesu:

- Pa mor gyflym y cafodd y gweithgareddau CT hyn eu cynnal yn rhithiol.
- Y gefnogaeth a roddwyd i denantiaid er mwyn eu galluogi i gymryd rhan trwy ddefnyddio gwahanol lwyfannau / ddulliau ar-lein.
- Y canlyniadau a gyflawnwyd gan y grŵp cyfranogi yn ystod yr amser hwn a'r manteision i'r tenantiaid yn gyffredinol.
- Unrhyw lwyddiant i ddenu tenantiaid newydd i gymryd rhan yn ystod y cyfnod clo.
- Unrhyw wersi a ddysgwyd: gwerth am arian, datblygiad prosiectau TPAS yn y dyfodol.

**Cymdeithas Tai flaenllaw yn Ne Ddwyrain Cymru yw Cartrefi Melin. Maent yn llwyr ymroddedig i ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd uchel i bobl ac mae cymunedau yn ganolog i'w holl weithgareddau.**

**Llwyddiannau Allweddol:**

- Cyfarfodydd Zoom rheolaidd gyda grwpiau ffocws lleol.
- Ymgynghori ar-lein.
- Cysylltiad rheolaidd gyda phreswylwyr trwy gyfrwng e-byst a galwadau ffôn.
- Gweithio gyda thenantiaid gyda chymorth offeryn cyfranogi, sef teclyn tracio CT , sydd yn anfon ac yn monitro pob neges.
- Talu costau band eang pob aelod o grwpiau ffurfiol, hyd at £15 y mis.
- Hyfforddi preswylwyr nad oeddynt yn gyfarwydd â defnyddio cyfrifiadur sut i ddefnyddio Zoom a llwyfannau eraill.
- Bu i 215 o breswylwyr newydd ymuno i gymryd rhan mewn arolygon ac ymgynghoriadau



## Llwyddiannau allweddol:

- Cyfuno holl grwpiau tenantiaid i ffurfio un grŵp mawr a chyfarfod yn rheolaidd trwy gyfrwng Zoom.
- Rhwng Ebrill a Thachwedd, cynhaliwyd cyfanswm o 31 cyfarfod.
- Galwadau ffôn rheolaidd i'r rhai nad oedd eisiau ymuno â'r cyfarfodydd ar-lein i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.
- Trefnu nifer o wahanol weithgareddau ar gyfer tenantiaid gan gynnwys cwisiau, heriau a chystadlaethau.

Cydrad

## Llwyddiannau allweddol (Adra):

- Cynhaliodd Adra gyfarfodydd ar-lein yn wythnosol – maent newydd gynnal cyfarfod rhif 91!
- Er mwyn helpu tenantiaid gyda'r dulliau digidol newydd, maent wedi creu canllawiau a darparu dolenni i fideos cymorth ar-lein a hefyd yn cynnig cefnogaeth ar y ffôn.
- Er mwyn helpu aelodau gyda chostau band eang, mae Adra wedi cyfrannu swm penodol bob mis.

## Llwyddiannau allweddol (Newydd):

- Cynigiodd Newydd gyfarfod gyda phreswylwyr i drafod sut yr hoffent i'w gwasanaethau ddatblygu yn y dyfodol.
- Cynhaliodd Newydd wythnos gynhadledd ar-lein gyda thema wahanol bob dydd a chynigion arbennig i annog tenantiaid i gymryd rhan!

## Manylion yr Enillydd:

**Cartrefi Melin, Y Lleisiau -**
caroline.morgan@melinhomes.co.uk

**Grŵp Cynefin, Cyfarfodydd Tenantiaid Wythnosol -**
ffion.jacobsen@grwpcynefin.org

**Adra, Tîm Cynnwys y Gymuned & Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr -**
dylan.thomas@adra.co.uk

**Newydd, Grŵp Galw i Mewn Craffu Tenantiaid ar-lein -**
rachel.honey-jones@newydd.co.uk

## Gyda diolch i'r holl gymdeithasau eraill a enwebwyd:

- **Pwyllgor Preswylwyr ClwydAlyn, Model unigryw**
- **Hafod, Panel Craffu Digidol**
- **Hafod, Cerdded yn eich Cymuned**
- **Cymdeithas Dai Sir Fynwy**
- **Pobl, Cynnwys y Cwsmer**
- **Grŵp Ymateb Tenantiaid i Cofid gan Trivallis**

# Cyfathrebu mewn Argyfwng

**Mae'r wobr hon yn cydnabod pa mor effeithlon y mae landlord cymdeithasol wedi cyfathrebu gyda'i denantiaid a defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y pandemig. Gallai hyn gynnwys ystod o ddulliau cyfathrebu megis fideo; inffograffeg, cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, Facebook, cyswllt uniongyrchol ayyb.**

## Meini Prawf Asesu:

- Yr ystyriaeth a roddwyd i amrywiaeth ac addasrwydd y dulliau cyfathrebu o safbwynt yr amrywiaeth a'r gwahaniaethau rhwng tenantiaid, h.y. defnyddio iaith blaen /osgoi jargon wrth gyfathrebu.
- Ystod y pynciau a drafodwyd.
- Effeithiolrwydd y cyfathrebu e.e. adborth oddi wrth denantiaid / defnyddwyr gwasanaethau, dadansoddiad cyfryngau cymdeithasol ayyb.
- Unrhyw wersi a ddysgwyd a chynaladwyedd y dulliau.

**Mae Grŵp Cynefin yn Gymdeithas Tai sydd yn darparu cartrefi ledled chwe ardal Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a Gogledd Powys. Eu gweledigaeth yw gwneud gwahaniaeth positif i fywydau a chymunedau trwy ddarparu gwasanaethau ardderchog, cyfrannu tuag at ddatblygu cymunedau cynaliadwy a diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda balchder.**

**Llwyddiannau Allweddol:**

- Cylchlythyr Tenantiaid (Calon) – Argraffiad Cofid-19 'Yma i chi/ Here for You'.
- Ychwanegu aelod staff newydd i'r tîm cyfathrebu er mwyn cynorthwyo gyda'r galw am gyfathrebu ar-lein.
- Creu cynllun cyfryngau cymdeithasol wythnosol i benderfynu pa wybodaeth / newyddion ddylai dderbyn blaenoriaeth.
- Sicrhau bod y cynnwys yn cael ei ddosbarthu mewn gwahanol ffyrdd megis print, fideos, lluniau, inffograffiau, neges destunau, dolenni ayyb.
- Creu cyfrif Instagram benodol ar gyfer pobl ifanc gan roi heriau wythnosol iddynt.
- Cyfarfod ar-lein bob wythnos gyda thenantiaid trwy gyfrwng Zoom.



## Llwyddiannau Allweddol:

- Sicrhau bod yr holl ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Creu cylchlythyr 'cyflwyno newyddion cyfryngau cymdeithasol' ar gyfer yr henoed nad ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
- Addasu cylchgrawn chwarterol y tenantiaid (Housing Hotline) er mwyn hyrwyddo ystod o faterion megis syniadau ar gyfer glanhau gwanwyn, cyngor ar ddiogelwch, sut i chwilio am gefnogaeth ariannol ayyb.
- Galw i weld dros 11,000 o denantiaid a sicrhau eu bod yn iawn

## Llwyddiannau Allweddol:

- Creu gwefan arbennig ar gyfer darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael.
- Cynhyrchu argraffiad arbennig 28 tudalen o gylchgrawn y preswylwyr ('Touch') yn rhoi'r un wybodaeth ag a geir ar y wefan.
- Anfon y cylchgrawn drwy'r post i bron 22,000 o breswylwyr ledled Cymru, mewn 4 fformat sef Saesneg, Cymraeg, print bras a CD.

## Manylion yr Enillydd:

**Grŵp Cynefin -**
mentraucymunedol@grwpcynefin.org

**Adran Dai Cyngor Wrecsam -**
hayley.byrne@wrexham.gov.uk

**Cyfathrebiaeth Cofid-19 Preswylwyr Tai Cymru a'r Gorllewin -**
alison.stokes@wwha.co.uk

## Gyda diolch i'r holl sefydliadau eraill a enwebwyd:

- **Tai Hafod**
- **Cymdeithas Tai Newydd**
- **Adran Tai Cyngor Sir Penfro**
- **Cyngor Ynys Môn**

# Cefnogi Llesiant

**Mae gwobr cefnogi llesiant yn cydnabod llwyddiant landlordiaid yn helpu i ofalu am les eu tenantiaid trwy gydol yr argyfwng Cofid  h.y. eu hiechyd, eu diogelwch a'u cysur. Gallai'r camau hyn gynnwys galwadau ffôn, trefnu i ddanfon bwyd a moddion iddynt, cyngor ar lesiant, partneriaethau gyda sefydliadau neu grwpiau eraill ayyb.**

## Meini Prawf Asesu:

- Pa mor gyflym ac effeithlon y gwnaeth y landlord ymateb i'r argyfwng.
- Yr ystyriaeth a roddwyd i'r amrywiaeth sy'n bodoli o safbwynt anghenion y tenantiaid.
- Y gwahaniaeth a ddaeth yn sgil y gefnogaeth e.e. adborth gan randdeiliaid, tenantiaid ayyb.

**Mae Adra yn darparu cartrefi o ansawdd yng Ngogledd Cymru. Mae'r cwmni yn gofalu am 6,300 o gartrefi ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer dros 14,000 o gwsmeriaid lleol. Eu nod yw i'r gwasanaethau hyn fod yn fforddiadwy a dibynadwy.**

**Llwyddiannau Allweddol:**

- Cysylltu gyda dros 1,800 o denantiaid sydd yn henoed ac yn fregus.
- Gweithio gyda'r cyngor gwirfoddol lleol sef Mantell Gwynedd, er mwyn helpu'r rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol.
- Creu Cronfa Tlodi Cofid Adra gyda'r £50k a ddyrannwyd ar gyfer cefnogi tenantiaid a chymunedau sydd yn wynebu caledi o safbwynt arian a llesiant.
- Gweithio gyda Chyngor Gwynedd i gefnogi 850 tenant ar restr y GIG o'r tenantiaid a warchodir fel eu bod yn derbyn parseli bwyd bob wythnos.
- Trefnu digwyddiadau awyr agored er lles preswylwyr hŷn mewn 3 safle tai cysgodol er mwyn ceisio datrys problem unigrwydd ac arwahanrwydd.



## Llwyddiannau Allweddol:

- Sefydlu tîm prosiect Llesiant rhag blaen er mwyn canfod y meysydd allweddol lle'r oedd angen cefnogi anghenion tenantiaid.
- Creu rhestr lawn o wasanaethau yn amrywio o ddanfon bwyd yn lleol i wasanaethau meddygol, arian argyfwng ar gyfer banciau bwyd a dosbarthu'r bwyd ymhlith tenantiaid.
- Ymgyrch 'Yma i Helpu' gyda'r bwriad o ddangos i'r tenantiaid pwy yw'r wynebau y tu ôl i'r gwasanaeth. Cyrhaeddodd yr ymgyrch dros 72,000 ar eu cyfryngau cymdeithasol gyda dros 4,500 yn ymateb.
- 146 o weithgareddau cymunedol ar-lein a 44 o weithgareddau cymdeithasol o bell wedi eu cynnal ers mis Mawrth.

## Llwyddiannau Allweddol:

- Sefydlu tîm Llesiant arbennig ym mis Mawrth ac ers hynny wedi sicrhau arian i gefnogi'r tîm.
- Gwneud cyfanswm o 2,186 o alwadau yn ymwneud â llesiant a dwyn sylw at 787 o achosion yn ymwneud â COFID-19.
- Derbyniodd 209 o breswylwyr becynnau llesiant i helpu gyda'u hiechyd meddwl yn ystod y cyfnod clo. Roedd y pecynnau yn amrywio yn unol â dewis y tenantiaid ac yn cynnwys pecynnau gweithgareddau corfforol, pecynnau garddio a phecynnau gofalgaredd.

## Manylion yr Enillwyr:

**Adra, Yma i Chi Drwy Cofid -**
elin.williams@adra.co.uk

**Cartrefi Conwy, Yma i Helpu -**
linda.humphreys@cartreficonwy.org

**ClwydAlyn, Cefnogi Prosiect Llesiant -**
louise.blackwell@clwydalyn.co.uk

## Gyda diolch i'r holl sefydliadau eraill a enwebwyd:

- **Cymdeithas Tai Cadwyn, Alessa Hill**
- **Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf**
- **Celf er Mwyn Iechyd, HWB Dinbych**
- **Hafan Cymru**
- **CT Hafod, Nid Oes Dim yn Ormod i'n Preswylwyr**
- **CT Hafod, Amanda gyda Breuddwyd Fawr**
- **CT Hafod, Prosiect Beicio Tegfan**
- **Cartrefi Melin, Yma i Chi**
- **CT Newydd, Rydym oll yn hyn gyda'n gilydd.**
- **CT Cyngor Sir Penfro**
- **Tai Cymunedol Tai Calon**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cefnogi Preswylwyr**
- **Tai i Breswylwyr Cymru a'r Gorllewin.**
- **Ynys Môn, Cefnogi Llesiant Preswylwyr.**

# Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau

**Mae'r wobr hon yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau grŵp neu breswylydd unigol sydd wedi cefnogi unrhyw grwpiau neu unigolion o fewn eu cymunedau yn ystod argyfwng Cofid. Gallai'r gefnogaeth hon olygu siopa dros gymdogion, danfon cylchlythyrau o gwmpas y gymuned fel bod preswylwyr yn gwybod am weithgareddau addas yn lleol, cadw llygad ar bobl fregus a sefydlu grwpiau cymorth gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ayyb.**

### Meini Prawf Asesu:

- Y math o gefnogaeth a ddarperir.
- Sut y caiff anghenion cymunedau ac unigolion eu cwrdd.
- Yr effaith a gafodd y gefnogaeth ar unigolion a chymunedau.
- A fyddai'n bosibl cynnal neu addasu'r prosiectau ar gyfer y dyfodol?

# Gwobrau Prosiectau/ Grwpiau a Gwobrau Unigolion

**Gan ein bod wedi derbyn cymaint o enwebiadau haeddiannol ac ardderchog, penderfynwyd rhannu'r categori Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau a chynnig dwy wobr. Roedd nifer o'r enwebiadau wedi'i cyflwyno ar gyfer unigolion yn hytrach na sefydliadau, felly'r teimlad oedd y byddai'n deg eu gwahanu yn unol â hynny. O ganlyniad, mae gennym y ddwy wobr newydd hyn:**

# Prosiect / Grwp

**Fe hoffem ddiolch yn gynnes iawn i Pobl am fod mor garedig â chyflwyno gwobr o £250 i'r holl rai a enwebwyd yn y categori Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau ar gyfer eu prosiect hwy neu elusen o'u dewis.**

**Yn ogystal â'r rhodd hael hon, maent hefyd wedi noddi'r wobr i'r unigolyn.**

## Diolch yn fawr iawn, Pobl!




**Sefydliad cymunedol heb fod er elw yw canolfan Galw-i-Mewn Blaen-y-Maes ac mae wedi ei leoli yng nghanol Blaen-Y-Maes, Abertawe. Caiff y Ganolfan Galw-i-Mewn ei rhedeg gan y gymuned er budd y gymuned. Maent yn helpu unigolion a theuluoedd trwy sicrhau mynediad am ddim i'r rhyngrwyd a ffôn, darparu bwyd, paned a sgwrs, gweithdai, a llawer mwy!**

### Llwyddiannau Allweddol:

- Ymestyn oriau agor i 5 diwrnod yr wythnos er mwyn sicrhau bod gan y gymuned leol fynediad at adnoddau hanfodol.
- Sicrhau arian i gyflogi Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned rhan amser.
- Cydlynu rhoddion o fwyd, casglu a danfon i'r rhai mwyaf bregus yn y gymuned, ac erbyn hyn maent wedi darparu cefnogaeth trwy ddosbarthu dros 300 o barseli bwyd.
- Gweithio'n ddiflino i adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau ledled Abertawe a sicrhau cytundebau gyda chyflenwyr lleol i gynnal y gwasanaethau ar gyfer y gymuned yn y dyfodol.
- Ailwampio'r ganolfan yn barod i groesawu'r gymuned yn ôl unwaith y bydd yn ddiogel i wneud hynny.




## Llwyddiannau Allweddol:

- Denu dros 190 o wirfoddolwyr – pob un yn derbyn cyfrifoldeb mewn un adran o'r gwaith ac yn arwain ar fentrau y maent yn teimlo'n gryf yn eu cylch.
- Gweithredu nifer o fentrau yn cynnwys ymgyrch 'Can ar y Wal' ('Tin on the Wall'), sydd yn helpu ac yn cefnogi aelodau bregus y gymdeithas trwy gasglu a dosbarthu parseli bwyd, cynnal y prosiect 'Cynllun Ailgylchu Dillad Ysgol', casglu tua 1,500 o eitemau oddi wrth noddwyr a chodi £470 mewn un wythnos.
- Ennill statws elusen wedi arwain at sicrhau rhagor o arian ac adnoddau, a bydd yn eu galluogi i ddod yn gynaliadwy yn y dyfodol!




## Llwyddiannau Allweddol:

- Adleoli gweithwyr lleol Cyngor Caerdydd a thîm Cymdeithas Tai Dinas Caerdydd i ddanfon 300 o barseli bwyd yn wythnosol i bob rhan o'r ddinas.
- Achub a dosbarthu planhigion a llysiau o Ganolfan Arddio Parc Biwt yng Nghaerdydd, annog teuluoedd i dyfu eu cynnyrch eu hunain gartref.
- Dosbarthu pecynnau crefft i bobl ifanc.
- Arbed tunelli o fwyd o safleoedd tirlenwi ers mis Mawrth a chefnogi dros 500 o bobl o fewn eu cymuned.

## Manylion yr Enillwyr:

**Canolfan Galw-i-Mewn Blaenymaes -**
amanda.roberts@poblgroup.co.uk & sue.potter@swansea.gov.uk

**Gwirfoddolwyr CV19 Risca -**
dafydd.hellard@poblgroup.co.uk

**Pantri Cymunedol Tremorfa -**
rhiannon.robertson@ccha.org.uk

## Gyda diolch i'r holl sefydliadau eraill a enwebwyd:

- **Prosiect Cymunedol Gateholm**
- **Grŵp Cymunedol Barrackswood & Harlequin**
- **Grŵp Cymunedol Bluebell**
- **Clase4all**
- **NYCA (Newport Yemini Community Association)**
- **Taclo Unigedd Cymdeithasol gyda Connect**

# Unigolyn

## David Cooksey

**Preswylydd Tai Cymru a'r Gorllewin yw David Cooksey o Dde Cymru.**

**Llwyddiannau Allweddol:**

- Cyn y pandemig, bu David yn casglu bwyd dros ben o'r archfarchnadoedd lleol, ac yna - gyda chymorth grŵp bach o wirfoddolwyr – ei ddefnyddio i baratoi dros 60 o frecwastau a phrydau canol dydd i'r preswylwyr hŷn.
- Ehangodd David ei waith da trwy ddarparu parseli bwyd ar gyfer teuluoedd lleol oedd yn brin o arian o ganlyniad i'r pandemig. Bob nos, mae'n casglu bwyd dros ben o'r archfarchnadoedd lleol ac yn danfon parseli bwyd i 40 teulu.
- Cyflwynwyd grant Cymuned Gymdogol i David a'r grŵp fel y gallai barhau i gefnogi'r teuluoedd hyn.






**Cynllun cysgodol gan Pobl yw Cymdogion Robert Davies Court mewn ardal ar gyrion Abertawe ac mae'r preswylwyr oll wedi cydweithio yn ystod y cyfnod an-odd hwn, yn enwedig Mr. Goaman a Mr. Burdett.**

**Llwyddiannau Allweddol:**

- Cadw'r cynllun yn lân ac yn weddus.
- Helpu preswylwyr gydag anghenion trwsio ac unrhyw anghenion eraill sydd yn dod i'r amlwg.
- Darparu gwasanaeth golchi dillad i'r rhai sydd ei angen.
- Prynu glinfwrdd newydd ac argraffydd fel y gall preswylwyr gefnogi ei gilydd gyda gwaith cyfrifiadurol.
- Gwneud ceisiadau am grant ar gyfer gweithgareddau cymunedol drwy eu cynllun Cist Gymunedol.




**Preswylydd Tai Cymru a'r Gorllewin yw Vivien 'Viv' Evans**

**Llwyddiannau Allweddol:**

- Gan fod ganddi flynyddoedd o brofiad mewn gwirfoddoli gyda'r sefydliad Dementia Matters ac oherwydd ei phrofiad personol o ofalu am ei mam drwy dementia, roedd Viv yn addas iawn i allu cynnig cefnogaeth.
- Mae Viv yn Hyrwyddwr Digidol ac mae wedi gwirfoddoli i hyfforddi preswylwyr eraill mewn defnyddio dulliau digidol.
- Cynhaliodd Viv gyfarfodydd rhithiol gydag aelodau a gofalwyr Dementia Matters er mwn helpu gyda'u rhaglenni.
- Mae Viv hefyd yn siopa, coginio, golchi dillad a cherdded cŵn i'r cymdogion sydd yn derbyn cefnogaeth ganddi.

## Manylion yr Enillwyr:

**David Cooksey, Tai Cymru a'r Gorllewin -**
alison.stokes@wwha.co.uk

**Mr Goaman & Mr Burdette, Grŵp Pobl**
kelly.ogden@poblgroup.co.uk

**Vivien 'Viv' Evans, Tai Cymru a'r Gorllewin -**
claire.hammond@wwha.co.uk

## Gyda diolch i'r holl rai eraill a enwebwyd:

- **United Welsh, Lisa Barnes**
- **Tai Cymru a'r Gorllewin, Kate Hancock**
- **Bysedd Gwyrdd Cymuned Hafod, Amanda Shaw**

TPAS CYMRU

You matter | Ti'n cyfri

**Mae TPAS Cymru wedi cefnogi tenantiaid a landlordiaid yng Nghymru am dros 30 mlynedd ac mae gennym draddodiad cryf o ddatblygu cyfranogiad effeithlon ymysg tenantiaid a chymunedau trwy hyfforddiant, cefnogaeth, prosiectau ymarferol a datblygu polisïau. Rydym wedi hen arfer ag ymwneud â thai ac rydym yn gwneud ein gorau i weld materion trwy lygad y tenant ac er budd y tenant.**

Rydym yn datblygu ymarfer gorau ar lefel landlord, grwpiau tenantiaid a phrosiectau trwy gynnig cyngor ymarferol, cefnogaeth, hyfforddiant a phrosiectau. Ledled Cymru, rydym yn gwella ac yn cefnogi hawliau cymunedol ac yn gwella ansawdd cyfranogiad y tenant trwy hyrwyddo a lledaenu ymarfer da.

Ar lefel y Llywodraeth, rydym yn cyfrannu tuag at addasu polisïau, gan gyfeirio profiadau ac anghenion y tenantiaid a'r landlordiaid i'r rhai sydd yn llunio'r polisïau a gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid er mwyn dylanwadu ar y polisïau.

Gobeithio eich bod wedi canfod y wybodaeth hon yn ddiddorol a'ch bod wedi mwynhau darllen am y gwaith ardderchog sydd yn mynd ymlaen ledled Cymru.

Os byddwch am drafod unrhyw fater ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â TPAS Cymru. Rydym ar gael i gefnogi neu i ddatblygu opsiynau ar gyfer eich sefydliad.

Pe byddech yn dymuno i ni roi cyflwyniad neu ddod i sgwrsio gyda'ch Bwrdd, tîm arweiniol, grŵp tenantiaid neu grŵp cymunedol, dewch i gysylltiad â ni.

**Cysylltwch â ni ar enquiries@tpas.cymru neu ffoniwch 02920 237303.**

## Unwaith eto, diolch i'n noddwyr, Tai Wales & West

Tai Wales & West Housing